# BLWCH OFFER
# STORÏAU BWYD LEAPFROG

## Esboniad

Mae Leapfrog yn dweud bod y **Blwch Offer Storïau Bwyd** yn cynnig 'ffyrdd hyblyg i gasglu a dweud storïau am fwyd a thlodi bwyd'.

Mae'r offer yn y Blwch Offer Storïau Bwyd wedi cael eu dyfeisio ar y cyd gan unigolion sydd â phrofiad bywyd ac ymgyrchwyr ym maes bwyd sy'n cydweithio â Leapfrog, prosiect ymchwil sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Caerhirfryn. Mae'r offer yn cynnig ffyrdd hyblyg i gasglu a dweud storïau am fwyd a thlodi bwyd.

Mae'r offer ar gael yn rhad ac am ddim yn www.leapfrog.tools ac wedi'u trwyddedu gyda Creative Commons fel y bydd unrhyw un yn gallu golygu ac addasu'r offer yn ôl eu hanghenion eu hunain.

Mae'r Blwch Offer wedi'i gynnwys ym Mhecyn Cymorth SFP am ei fod yn adnodd gwerthfawr iawn y dylai partneriaethau ystyried ei ddefnyddio wrth ymgysylltu â phobl ynghylch materion sy'n gysylltiedig â bwyd. Pwrpas yr offer yw ymchwilio i brofiadau pobl o dlodi bwyd, ond gellid addasu'r prosesau a'r offer i ymchwilio i bynciau a materion eraill sy'n ymwneud â bwyd.

Datblygwyd yr offer mewn partneriaeth â rhaglen **Food Power** Sustain ac roeddent yn ddefnyddiol iawn wrth ddod â grwpiau o bobl ynghyd i drafod y profiadau tebyg o dlodi bwyd a oedd ganddynt. Roedd yr offer o gymorth i ganfod grwpiau ac unigolion mewn gwahanol gymunedau o gwmpas y DU sydd wedi gallu cyfrannu at drafodaeth am fynediad at fwyd ac wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu strategaethau a phrosiectau i ymdrin â'r materion dan sylw.

**Ynghylch Leapfrog** (o wefan Leapfrog www.leapfrog.tools)

> *Mae Leapfrog – ymgynghori ar drawsnewid y sector cyhoeddus drwy ddylunio – yn brosiect tair blynedd o hyd gwerth £1.2 miliwn sydd wedi'i gyllido gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Mae prosiect Leapfrog yn cydweithio'n agos â phartneriaid yn y gymuned a'r sector cyhoeddus i ddylunio a gwerthuso dulliau ymgynghori newydd.*
>
> *Prosiect ymchwil yw Leapfrog sy'n ceisio canlyniadau ymarferol iawn; offer a blychau offer y gall unrhyw un eu defnyddio i ymgynghori mewn ffyrdd mwy creadigol a chynhwysol.*
>
> *Nid yw offer Leapfrog yn fformiwlâu neu brosesau caeth ond, yn hytrach, yn ffyrdd effeithiol i gyflawni mwy mewn llai o amser, drwy drawsnewid gweithgareddau a gweithdai er gwell. Mae ein blychau offer yn gasgliadau o offer cysylltiedig sy'n cydweddu â'i gilydd, ond rydym yn ymddiddori hefyd yn y ffordd y mae pobl yn mabwysiadu ac yn addasu ein hoffer mewn modd annisgwyl.*

## Cyflwyniad

- Yn ystod Cam 3 SFP, byddwn yn edrych ar ffyrdd i ddefnyddio’r prosesau ac offer ym **Mlwch Offer Storïau Bwyd Leapfrog** i gynyddu’r cyfranogiad ym mhartneriaethauSFP gan bobl o wahanol gymunedau.
- Ar sail y profiad hwn, datblygir canllawiau ac addasir offer a dulliau i’w hychwanegu i’r adnodd hwn.